# Cyfarwyddwr Rhanbarthol

## Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



**MID WALES SPORTS PARTNERSHIP**

**PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU**

# Trosolwg o **Bartneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru**

Mae Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru (PChCC) yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru i ddatblygu ein partneriaeth chwaraeon ranbarthol newydd.

Mae Chwaraeon Cymru ar siwrnai i newid y tirlun chwaraeon cymunedol ledled Cymru a sut mae chwaraeon yn cael eu darparu, gan greu newid sylweddol yn y lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith pobl yng Nghymru. Gyda'n gilydd rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i fod yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o *"Creu Cymunedau Iachach a Thrawsnewid Bywydau drwy Ffyrdd o Fyw Actif"*.

Bydd ein Partneriaeth yn dod â rhanddeiliaid allweddol ar draws Canolbarth Cymru at ei gilydd, rhanddeiliaid sy'n deall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni eu manteision.

Bydd ein Partneriaeth yn cael ei harwain gan wybodaeth a bydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei dull o weithredu, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol, gyda diben cyffredin yn cael ei gyflawni ar lefel leol gan sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ystod o gyfleoedd sy'n diwallu| eu hanghenion orau.

Rydym yn awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol o ddarparu, a hefyd creu gweledigaeth llawn cymhelliant a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws pob diwydiant.

Bydd PChCC yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig drwy warant (gyda'r potensial i fabwysiadu statws elusennol ar yr amser cywir), o fewn fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth galon y Bartneriaeth bydd Bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol.

Gan gynnwys swydd y Cadeirydd, bydd y Bwrdd yn penodi rhwng chwech ac wyth aelod i adlewyrchu diddordebau'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni uchelgais Canolbarth Cymru.

# Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

**Ein Gweledigaeth:**

*"Creu Cymunedau Iachach a Thrawsnewid Bywydau drwy Ffyrdd o Fyw Actif."*

MID WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU

## Ein Hamcanion Strategol:

### Pobl

- Dathlu amrywiaeth drwy ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn, gyda ffocws penodol ar y bobl hynny sy'n llai actif ac sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu hiechyd a'u lles.
- Creu cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif / cymryd rhan mewn chwaraeon ym mhob cam o'u bywydau, gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cefnogi, datblygu a dathlu ein rhwydwaith o wirfoddolwyr a'n gweithlu i ddiogelu dyfodol gweithgarwch corfforol a chwaraeon cymunedol.

### Eiriolaeth ac Arweinyddiaeth

- Arwain gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn strategol yn y rhanbarth gan sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion a'n cymunedau drwy ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol a phartneriaid darparu.
- Ceisio cynyddu adnoddau i wella'n barhaus ac arloesi cyfleoedd i bobl fod yn gorfforol actif am oes.

### Cymuned

- Grymuso ein cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o gynnal gweithgarwch corfforol a chwaraeon lleol.
- Cydnabod pwysigrwydd a gwerth ein strwythur clwb drwy barhau i ddarparu'r gefnogaeth sy'n eu galluogi i ffynnu a chynnal eu cyfraniad at eu cymuned a'u heconomi leol.

### Cyfleusterau

- Hyrwyddo datblygiad cyfleusterau modern, ysbrydoledig o safon byd, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o'n hamgylchedd naturiol, a hefyd sicrhau ein bod yn ei warchod.

### Effaith

- Mesur yn effeithiol a chyhoeddi ein perfformiad i sbarduno gwelliant yn barhaus ac i gefnogi penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

### Dirnadaeth ac Ymchwil

- Cael ein harwain gan ein dirnadaeth, ein hymchwil a'n tystiolaeth i sicrhau ein bod yn buddsoddi ein hamser ac yn rhannu adnoddau yn y cymunedau a'r grwpiau poblogaeth hynny lle mae'r angen mwyaf.

# Ein Dull o Weithredu



**Bydd PChCC yn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy roi'r egwyddorion arweiniol hyn ar waith (a mabwysiadu dull comisiynu):**

- Moderneiddio, gwella a datblygu sector chwaraeon cynaliadwy yn y rhanbarth gan sicrhau cydbwysedd rhwng arweinyddiaeth a llywodraethu i wireddu'r weledigaeth a'r amcanion.
- Gwneud penderfyniadau ar sail data a dirnadaeth.
- Gweithredu gydag integriti, atebolrwydd a thryloywder.
- Blaenoriaethu baich gwaith a meysydd a all wneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynaliadwyedd a chynhwysiant ym mhob cam gweithredu.
- Mynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol a gwledig sy'n wynebu'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon cymunedol.
- Rhoi buddiannau cyfranogwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwr o weithredu.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon a darparu ar gyfer natur amrywiol y sector i sicrhau diogelwch, lles a llesiant pawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Sicrhau bod safonau diogelu yn cael eu bodloni ym mhob rhan o PChCC.
- Denu buddsoddiad o ffynonellau cyllid eraill.
- Sefydlu sail ar gyfer sgyrsiau am sut gall Aelodau PChCC wella fel sefydliadau.
- Datblygu fframwaith canlyniadau gyda ffocws sy'n targedu anghenion trigolion y rhanbarth.



# Rôl y Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Rydym eisiau penodi uwch arweinydd hynod brofiadol, deinamig a medrus i swydd Cyfarwyddwr Rhanbarthol: Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru (PChCC).

Hwn fydd y penodiad cyntaf o'i fath yng Nghanolbarth Cymru ac felly bydd y swydd yn un uchel ei phroffil, gan arwain newid i'r system gyfan ar draws Canolbarth Cymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ddylanwadwr allweddol mewn polisi a strategaeth ranbarthol a chenedlaethol ac ar flaen y gad o ran dylunio a datblygu chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio gyda, ac ar ran, Bwrdd PChCC i arwain a llywio cyfeiriad strategol y Bartneriaeth i gyflawni ei gweledigaeth a'i dyheadau.

Bydd hyn yn cael ei gyflwyno, drwy ddull arloesol a chydweithredol, gan ddefnyddio amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau corfforol fel yr ateb arfaethedig.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn adlewyrchu'r ffaith na all yr un sefydliad gyflawni'r uchelgais hwn ar ei ben ei hun, gan gydnabod ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wneud i'r gwelliannau ddigwydd.


### Bydd eich Prif Gyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol:

- Bod yn arweinydd strategol ar gyfer datblygu chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws Canolbarth Cymru, gan gyflawni twf cynaliadwy yn nifer y bobl actif ac arwain at well iechyd a lles ar draws y rhanbarth.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws Canolbarth Cymru, gan sicrhau ymrwymiad i weledigaeth PChCC. Yn arbennig gyda phartneriaid darparu lleol.
- Denu a thyfu buddsoddiad ariannol cynaliadwy yn PChCC, gan alluogi'r rhanbarth i ffynnu a helpu i ddiogelu datblygiad chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol.
- Cynrychioli PChCC ar faterion o arwyddocâd rhanbarthol a chenedlaethol, gan gysylltu â Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol eraill i ddylanwadu a chynghori ar bolisi a strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Bod yn eiriolwr blaenllaw ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan godi proffil PChCC, ei ddiben a'r cyfraniad mae'n ei wneud at iechyd, lles, yr economi ranbarthol, yr amgylchedd a'r uchelgais i hyrwyddo Canolbarth Cymru fel lle gwych i fyw a gweithio ynddo.



MID WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau



## Rhinweddau Arwain:

- Y gallu i wneud penderfyniadau prydlon, clir a all gynnwys dewisiadau anodd neu risgiau ystyriol. Ysgwyddo cyfrifoldeb am weithredu, prosiectau a phobl.
- Arwain drwy esiampl a gyda hyder, gan ddangos dilysrwydd, tegwch a gwerthoedd cadarnhaol.
- Yn darparu cyfeiriad clir. Arwain o'r blaen ac yn mynd â thimau / partneriaid ymlaen. Ysgogi a grymuso eraill a recriwtio staff o safon uchel.
- Gwrando'n astud a meithrin ymddiriedaeth a hyder gyda thimau, partneriaid a chymunedau.
- Yn cynnal moeseg a gwerthoedd, yn dangos integriti, yn gosod safonau ac yn deall sut mae ymddygiad yn effeithio ar eraill. Addasu arddull yn unol â hynny i gael y gorau allan o eraill. Hyrwyddo ac amddiffyn cydraddoldeb a meithrin amrywiaeth.
- Creu argraff bersonol gadarn, perswadio, trafod a dylanwadu. Cyfathrebu'n glir, ymateb i gynulleidfaoedd gyda sgil a hyder. Derbyn adborth adeiladol ac addasu i newid cyson ac ymrwymo i welliant parhaus.
- Yn gweithio'n strategol i gyflawni nodau sefydliadol, rheoli adnoddau'n effeithiol a monitro perfformiad yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt. Yn addasu i newid ac yn cofleidio syniadau newydd, arloesi, herio a chroesawu adborth rheolaidd.



# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau



## Arwain y Dyfodol:

- Sefydlu PChCC fel sefydliad credadwy a hyfyw, gan hyrwyddo arfer gorau wrth gyflawni Gweledigaeth ac uchelgeisiau PChCC, gan sicrhau bod strategaethau a modelau cyflawni yn cysylltu â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar draws iechyd, addysg, cydraddoldeb, yr economi a'r amgylchedd.
- Sbarduno newid system gyfan, cefnogi iechyd a lles, hyrwyddo arloesi a ffyrdd newydd o weithio.
- Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid yng Nghanolbarth Cymru ar lefel strategol uwch i bennu a chyflawni'r strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghanolbarth Cymru.
- Cynnal ymwybyddiaeth o weithgareddau mewn Partneriaethau Chwaraeon eraill a rhanddeiliaid allweddol i feithrin cydweithrediad ac effeithlonrwydd.
- Gweithredu fel yr uwch gynghorydd strategol yng Nghanolbarth Cymru ar gyfer ac ar ran y ddarpariaeth o Chwaraeon Cymunedol yng Nghymru a Chanolbarth Cymru. Eiriol dros y rhanbarth drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a grwpiau eraill i ddylanwadu ar bolisi a strategaeth.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu buddsoddiad ariannol cynaliadwy yn y rhanbarth, gan greu cyfleoedd incwm, datblygu ceisiadau am arian, trafod partneriaethau masnachol a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am nawdd.
- Bod yn gyfrifol am gydlynu rheolaeth rhaglen ar draws y rhanbarth i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt yn llwyddiannus, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i - gwella gweithgarwch corfforol a chanlyniadau iechyd; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau / lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; presgripsiynau cymdeithasol a chefnogi adferiad economaidd-gymdeithasol ar ôl Covid.
- Codi proffil chwaraeon yng Nghanolbarth Cymru a Chymru drwy greu a gweithredu hunaniaeth brand gadarn sy'n cyd-fynd â strategaeth farchnata a hyrwyddo effeithiol sy'n cyfathrebu'r weledigaeth ar gyfer PChCC a'r achos dros chwaraeon, a'i effaith gadarnhaol ar iechyd, lles ac economi ranbarthol Canolbarth Cymru.
- Sbarduno cyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chofleidio arloesedd i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau



## Arwain gydag Eraill:

- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda Chadeirydd Annibynnol a Bwrdd Partneriaeth PChCC.
- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, gan ysgogi agwedd gydweithredol at gyflawni strategol a ffordd ddeinamig o weithio. Datblygu diwylliant o ddysgu a datblygu yn unol â fframwaith arweinyddiaeth y sector chwaraeon.
- Datblygu a rheoli perthnasoedd effeithiol, dibynadwy gyda rhanddeiliaid allweddol presennol a dylanwadu ar bartneriaid newydd, yn wirfoddol a masnachol, i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni Gweledigaeth PChCC.
- Adeiladu rhwydweithiau effeithiol i helpu i werthu negeseuon allweddol a dylanwadu ar werth chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gymuned Canolbarth Cymru, gan arwain at gyflawni canlyniadau gwell.



# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau



## Arwain ar gyfer Canlyniadau:

- Arwain ar ddatblygu a chyflwyno strategaeth PChCC.
- Sicrhau bod cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn rhan annatod o arferion ac egwyddorion PChCC a'i phartneriaid cydweithredol. Dylai hyn gynnwys dangos bod effaith y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig, gan gynnwys yr Iaith Gymraeg ac anfantais Economaidd-Gymdeithasol, yn cael ei deall, bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn gweithredu.
- Sicrhau bod systemau rheoli perfformiad yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan ganiatáu adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau a chanlyniadau rhanbarthol i'r Bwrdd a phartneriaid cyllido, gydag ymrwymiad cadarn i welliant parhaus.
- Rheoli'r holl adnoddau (dynol, ariannol a chorfforol) yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn sicrhau bod amcanion strategol a gweithredol PChCC yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
- Bod yn hyblyg i allu ymateb i newidiadau allanol a manteisio arnynt.
- Cefnogi PChCC i gyflawni yn erbyn y trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt, y Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru a gofynion Fframwaith Gallu Chwaraeon Cymru ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill.
- Sicrhau y cedwir at reoliadau ariannol a gosod a chyflawni'r safonau uchaf o ran cyfrifyddu a manwl gywirdeb ariannol.
- Sicrhau bod PChCC yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Manyleb y Person

| Ffactor | Gofynion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a Sgiliau | Isafswm o 5 mlynedd o brofiad o weithio ar lefel uwch mewn maes perthnasol gyda thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | H | |
| | Cymhwyster Arwain neu Reoli e.e., ILM/MBA/DMS neu gyfatebol | | D |
| | Profiad clir o reoli prosiectau mawr a chymhleth ac arwain newid ar lefel sefydliadol ac ar draws gwahanol sefydliadau | H | |
| | Tystiolaeth o arwain a gweithredu gweledigaeth a strategaeth mewn amgylchedd amrywiol ac amlddisgyblaethol ac i ddod o hyd i atebion creadigol ac arloesol | H | |
| | Gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu eang i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid a gweithdrefnau yr awdurdod lleol. Gwybodaeth gadarn am bartneriaid academaidd, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu protocolau a dulliau cadarn a mesurau llwyddiant yn unol â Fframwaith Canlyniadau Strategol PChCC a Fframwaith Atebolrwydd Chwaraeon Cymru | H | |
| | Y gallu i weithio gyda nifer o randdeiliaid ar draws Canolbarth Cymru i gael gwybodaeth am angen ar draws Canolbarth Cymru ac i dargedu darpariaeth yn effeithiol | H | |
| | Y gallu i ymchwilio a gwerthuso arfer a nodwyd y tu hwnt i Ganolbarth Cymru a dangos meddwl creadigol ac arloesol wrth gymhwyso'r dysgu hwn i Ganolbarth Cymru | H | |
| | Y gallu i argymell a datblygu strategaeth a model cyflawni clir sy'n ennyn hyder ac ymddiriedaeth yn y dull a gynigir | H | |
| | Dealltwriaeth o heriau a chyfleoedd allweddol gweithredu dull teg a chynhwysol ar draws Canolbarth Cymru | H | |
| | Sgiliau ariannol, rhifol a dadansoddol rhagorol yn cael eu defnyddio i gyflawni amcanion strategol a gweithredol | H | |
| | Gwybodaeth glir am ddefnyddio systemau rheoli perfformiad effeithiol, data a dirnadaeth i bennu effaith ac effeithiolrwydd dulliau a nodwyd y gellid eu defnyddio wrth bennu cyfeiriad a blaenoriaethau wrth sefydlu PChCC | H | |
| | Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol ond mae'n hanfodol bod y Diwylliant a'r Iaith Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ym mhob agwedd ar PChCC | | D |
| | Profiad sylweddol o reoli gweithredol mewn rôl strategol neu arweinyddiaeth | H | |
| Goruchwyliaeth a Rheolaeth | Profiad lefel uwch o gynllunio'r gweithlu, datblygu staff, rheoli perfformiad ar lefel sefydliadol | H | |
| | Sgiliau llafar a chyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i gymell, ennyn brwdfrydedd, perswadio, cyd-drafod a dylanwadu ar ystod eang o gynulleidfaoedd i gyflawni canlyniadau llwyddiannus | H | |
| | Mynd ati i annog a chofleidio meddwl a datrysiadau creadigol ar lefel sefydliadol neu o fewn cyd-destun amlddisgyblaethol | H | |

# Manyleb y Person

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Profiad o ddatblygu sefydliadol i ymateb i anghenion cyflenwi presennol ac yn y dyfodol | H | |
| | Y gallu i gymhwyso syniadau a dulliau gweithredu ffres wrth nodi partneriaethau newydd, cyfleoedd masnachol a chynhyrchu incwm | H | |
| | Arweinydd hynod brofiadol, deinamig a medrus gydag angerdd a gweledigaeth ac sy'n gallu sefydlu a thyfu PChCC fel sefydliad credadwy a hyfyw | H | |
| | Y gallu i weithio'n greadigol ac yn annibynnol mewn cyd-destun gwaith heb unrhyw lasbrint neu batrwm blaenorol – pennu'r cyflymder a'r cyfeiriad i gyflawni Gweledigaeth a Nodau Strategol PChCC fel sefydliad newydd sbon | H | |
| | Cofleidio gweithio mewn partneriaeth ar lefel aml-sefydliadol ac arwain newid system gyfan o fewn y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws y rhanbarth 'i rymuso ein cymunedau yng Nghanolbarth Cymru i fod yn fwy actif, gan fyw bywydau iachach a hapusach' | H | |
| | Profiad sylweddol o ymgysylltu â phartneriaid strategol a datblygu perthnasoedd dibynadwy ar draws nifer o sefydliadau neu sectorau amrywiol | H | |
| | Dangos gallu i sicrhau cydbwysedd rhwng nifer o safbwyntiau a all fod yn heriol ac yn gwrthdaro, a chyflwyno cyfeiriad clir yn unol â blaenoriaethau'r sefydliad | H | |
| Penderfyniadau / Argymhellion | Profiad o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a chanlyniadau strategol | H | |
| | Sefydlu a gweithredu protocolau a gweithdrefnau i gefnogi Bwrdd PChCC gan sicrhau bod llythyren ac ysbryd y trefniadau llywodraethu yn cael eu gwarchod | H | |
| | Darparu cefnogaeth i Gadeirydd Annibynnol Bwrdd PChCC i sefydlu dulliau creadigol i sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad llawn yr aelodau wrth gyflawni gweledigaeth ac uchelgeisiau PChCC – gan wneud y mwyaf o'r ehangder sgiliau a gwybodaeth sydd ar gael a gwneud y defnydd gorau ohonynt | H | |
| | Profiad sylweddol o gynllunio busnes, rheolaeth ariannol, cyllidebu, a gweithredu prosiectau yn llwyddiannus | H | |
| Adnoddau | Egnïol a brwdfrydig gyda'r gallu i gyflawni'n gyflym o fewn terfynau amser penodol | H | |
| Gofynion Corfforol | Gwydnwch personol i ymdopi ag anawsterau a'r gallu i addasu'n gyflym o dan amgylchiadau sy'n newid | H | |
| | Y gallu i deithio ledled Canolbarth Cymru yn ôl yr angen - bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau i gefnogi ymgysylltiad partneriaid | H | |
| | Hunan-ymwybyddiaeth a hunan-sicrwydd sy'n meithrin lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder gan randdeiliaid allweddol | H | |
| | Siaradwr hyderus, enghreifftiau o gyfarfodydd cyhoeddus, grwpiau llai, un i un | H | |
| | Hyderus wrth fynd i'r afael â heriau a chwynion a delio â hwy mewn ffordd gadarn a phositif | H | |

# Gwybodeath Bellach a'r Broses Recriwtio



MID WALES SPORTS PARTNERSHIP | PARTNERIAETH CHWARAEON CANOLBARTH CYMRU

## Tâl:

Bydd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn derbyn taliad o £50,000 i £55,000 y flwyddyn (ynghyd â phecyn pensiwn). Bydd yr holl gostau ychwanegol a rhesymol sy'n codi wrth i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol gyflawni ei ddyletswyddau'n cael eu had-dalu yn unol â Pholisi Cyllid a Gweinyddu PChCC.

## Oriau:

Llawn amser, 37.5 awr yr wythnos, oriau gwaith hyblyg o fewn cyfnodau craidd. Mae disgwyl efallai y bydd angen i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol fynychu digwyddiadau / cyfarfodydd y tu allan i gyfnodau craidd.

## Lleoliad:

Gweithio Hybrid.

## Sut i Ymgeisio:

Dyddiad Cau ar gyfer Ymgeisio:
**Dydd Sadwrn 31ain Awst**

Os ydych chi'n feddyliwr strategol gydag ymrwymiad llwyr i wella iechyd, lles a hapusrwydd pobl yng Nghanolbarth Cymru drwy gyfranogiad actif gydol oes mewn chwaraeon a hamdden corfforol a rhagoriaeth arweinyddiaeth, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Fel rhan o'ch cais, cyflwynwch y canlynol os gwelwch yn dda:**

- Eich CV cyfredol yn manylu ar eich profiad proffesiynol, cefndir addysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n cefnogi eich cais.
- Llythyr cais (2 dudalen A4), yn tynnu sylw at eich addasrwydd ar gyfer y rôl, gan gyfeirio at y gofynion a geir ym manyleb y person. Amlinellwch eich profiad perthnasol a'ch gweledigaeth ar gyfer cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru.

Dylech e-bostio eich CV a'ch llythyr cais atom ni i **hr@cobalt-hr.co.uk.** Defnyddiwch y llinell bwnc:

Cais Cyfarwyddwr Rhanbarthol – **[Eich Enw Llawn]**

Cynhelir y cyfweliadau ar: **Dydd Mercher 18fed Medi**

## Ymholiadau a Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o fanylion am y rôl neu i drafod eich cais, cysylltwch â Sherrie Woolf ar e-bost **sherrie@bespokeaccountingservices.com**

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno i Cobalt HR brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio.

Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac edrychwn ymlaen at ystyried eich cais chi. Diolch i chi am eich diddordeb mewn cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru. Pob hwyl i chi gyda'ch cais!